



Llywodraeth Cymru  
Welsh Government

[www.cymru.gov.uk](http://www.cymru.gov.uk)

# Llywodraeth Cymru Rheoleiddio Tai

Dyfarniad Rheoleiddiol

Cymdeithas Tai Bro Myrddin – L069

Mehefin 2018

Mae gan Weinidogion Cymru bwerau o dan Ran 1 o Ddeddf Tai 1996 i reoleiddio Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig mewn perthynas â'u darpariaeth o ran tai ac mewn perthynas â materion yn ymwneud â llywodraethu a rheolaeth ariannol.

Mae Gweinidogion Cymru yn cyhoeddi'r Dyfarniad Rheoleiddiol hwn o dan adran 33A a 35 o Ddeddf Tai 1996.

Cyhoeddir y dyfarniad hwn yn unol â'r Fframwaith Rheoleiddiol ar gyfer Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig yng Nghymru a'r safonau perfformio cysylltiedig.

<http://gov.wales/topics/housing-and-regeneration/services-and-support/regulation/regulatory-framework/?skip=1&lang=cy>

Mae'r dyfarniad yn seiliedig ar werthusiad y Gymdeithas ei hun o'i chydymffurfiaeth â'r safonau perfformiad ynghyd â gwybodaeth reoleiddiol a feithrinwyd drwy drefniadau rheoli cydberthynas cydreoleiddiol parhaus rhwng y Rheoleiddiwr a'r Gymdeithas.

## Sail y Dyfarniad

Nod y dyfarniad hwn yw rhoi dealltwriaeth i'r Landlord Cymdeithasol Cofrestredig, ei denantiaid, defnyddwyr y gwasanaeth a rhanddeiliaid eraill o'i hyfywedd ariannol a pha mor dda y mae'n perfformio, ar adeg benodol mewn perthynas â:

- Llywodraethu a Darparu Gwasanaethau
- Rheolaeth Ariannol

Ni ddylai unrhyw barti arall ddibynnu ar y dyfarniad hwn at unrhyw ddiben arall. Y Landlord Cymdeithasol Cofrestredig sy'n gyfrifol am ba mor gyflawn a chywir yw'r wybodaeth a roddwyd i'r Rheoleiddiwr.

Tîm Rheoleiddio Tai  
Adran Polisi Tai  
Llywodraeth Cymru  
Swyddfa Merthyr Tudful  
Rhyd-y-car  
CF48 1UZ  
e-bost: [housingregulation@gov.cymru](mailto:housingregulation@gov.cymru)

## Proffil

Mae Cymdeithas Tai Bro Myrddin ("Bro Myrddin" neu "y Gymdeithas") yn gymdeithas dai draddodiadol gofrestrwyd o dan Ddeddf Cwmnïau Cydweithredol a Chymdeithasau Budd Cymunedol 2014 ac mae ganddi reolau elusennol.

Mae Bro Myrddin yn berchen ar 879 o gartrefi ac yn eu rheoli yn ardal Cyngor Sir Caerfyrddin a Chyngor Sir Benfro. Maent yn cynnwys chartrefi anghenion cyffredinol, dau eiddo perchenogaeth ar y cyd a dau gartref gofal a lle i wyth gwely.

Ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2017, trosiant y Gymdeithas oedd £4.6m (2016: £4.3m), y gwaged a gadwyd ganddi oedd £643k (2016: £534K) ac roedd yn cyflogi 40 o aelodau o staff (2016: 34).

## Data Ariannol Allweddol

	Data Hanesyddol		Terfyn Cyfamod	Cyfartaledd ar gyfer y Sector
	2015/16	2016/17		2016/17
<b>Perfformiad</b>				
Gwaged gweithredu fel % o'r trosiant	23.5%	23.4%	n/a	21.3%
Gwaged ar gyfer y flwyddyn fel % o'r trosiant	12.3%	13.9%	n/a	6.5%
Colled o eiddo gwag a rhent heb ei gasglu fel % o'r incwm o renti	1.9%	1.9%	n/a	2.0%
<b>Cyllid</b>				
Benthyciadau sefydlog fel % o'r cyfanswm	61%	68%	n/a	74%
Geriad	44%	39%	55%	61%
Sicrwydd llog	181%	181%	120%	172%
Mae'r balansau arian parod cyfredol a'r cyfleusterau heb eu tynnu yn ddigonol i'r Gymdeithas gwblhau'r rhaglen ddatblygu y mae wedi ymrwymo iddi.				

## Barn Reoleiddiol – Statws Cydreoleiddio

### **Statws Cydreoleiddio – Mehefin 2018**

#### **Llywodraethu a Gwasanaethau - Safonol**

- Yn nodi ac yn rheoli risgiau newydd a risgiau sy'n datblygu yn briodol.

#### **Hyfywedd Ariannol - Safonol**

- Yn bodloni gofynion o ran hyfywedd ac mae gan y Gymdeithas yr adnoddau ariannol i ymdrin â senarios yn briodol.